

Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes)

Hydref 2025

Cynnwys

Casgliadau ac argymhellion	3
1. Y cefndir.....	5
Y Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes).....	5
2. Y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol.....	5
Ein hymchwiliad ni	6
Y darpariaethau y ceisir cydsyniad ar eu cyfer	6
Safbwynt Llywodraeth Cymru	9
Goblygiadau ariannol	9
Barn Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch cydsyniad.....	10
3. Darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer.....	11
Darparu gwasanaethau marw â chymorth yn wirfoddol yng Nghymru	11
Effaith ar ofal lliniarol a gofal diwedd oes	18
Ein barn ni.....	20
Canllawiau ynghylch gweithredu'r Ddeddf*	24
Ein barn ni.....	26
Monitro gan Gomisiynydd Marw â Chymorth yn Wirfoddol	27
Ein barn ni.....	28
Darpariaeth ynghylch y Cymraeg	29
Ein barn ni.....	33

Casgliadau ac argymhellion

Casgliadau

Casgliad 1. Fel Pwyllgor, rydym yn cymryd safbwynt niwtral ar y mater marw â chymorth yn wirfoddol i oedolion sy'n derfynol sâl. Felly, nid ydym yn cynnig unrhyw farn ynghylch a ddylai'r Senedd gefnogi'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol na Memorandwm Rhif 2. Mae hwn yn fater o gydwbybod i Aelodau unigol..... 22

Casgliad 2. Pe bai rheoliadau'n cael eu cyflwyno yn y dyfodol i weithredu gwasanaethau marw â chymorth yng Nghymru, byddem yn disgwyl i unrhyw Lywodraeth gyfrifol yng Nghymru yn y dyfodol wneud hynny ar ffurf ddrafft ar gyfer cynnal ymgynghoriad cyhoeddus eang, a sicrhau bod digon o amser ar gael i bob pwyllgor perthnasol yn y Senedd gynnal archwiliad llawn a thrylwyr o fanylion y rheoliadau hynny. Yn ogystal, byddem yn disgwyl i'r rheoliadau hynny fod ar ffurf fanwl, gan nodi eu bwriadau polisi yn glir, a bod costau manwl yn cyd-fynd â hwy..... 22

Casgliad 3. Mae effaith tymor hwy bosibl y Bil ar ddarpariaeth gofal lliniarol a gofal diwedd oes yng Nghymru yn parhau i fod yn destun pryder inni. Os yw darpariaethau'r Bil hwn i gael eu gweithredu yng Nghymru, rhaid gwahaniaethu'n glir ac yn bendant rhwng marw â chymorth a gofal lliniarol/diwedd oes. Yn hollbwysig, ni ddylai gweithredu gwasanaethau marw â chymorth gan GIG Cymru effeithio'n negyddol ar y cyllid sydd ar gael ar gyfer gofal lliniarol a gofal diwedd oes..... 24

Argymhellion

Argymhelliad 1. Yn ei ymateb i'r adroddiad hwn, dylai'r Ysgrifennydd Cabinet nodi pam ei fod wedi mabwysiadu dull cul wrth benderfynu pa ddarpariaethau o'r Bil ddylai fod yn destun cais am gydsyniad deddfwriaethol, pan fo mater 'iechyd' wedi'i ddatganoli'n helaeth. Gallai dehongliad ehangach, a oedd yn ystyried bod y gwasanaethau yn y Bil yn cael eu darparu'n bennaf mewn lleoliad gofal iechyd gan weithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol, fod wedi arwain at ystyried bod y rhan fwyaf o'r cymalau yn y Bil yn gofyn am gydsyniad ac felly'n destun gwaith craffu gan y Senedd hon.....222

Argymhelliad 2. Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor o bryd i'w gilydd am gynnydd y gwaith o baratoi ar gyfer goblygiadau

gweithredu'r Bil yng Nghymru i'r gweithlu. Dylai hyn gynnwys, ymhlith materion eraill, ystyried cyfrifoldebau cynyddol staff, anghenion hyfforddi ychwanegol, digonolrwydd y gweithlu sy'n siarad Cymraeg (gweler hefyd argymhelliad 4), a chostau cychwynnol.....233

Argymhelliad 3. Yn ei ymateb i'r adroddiad hwn, dylai'r Ysgrifennydd Cabinet nodi ei farn ynghylch a ddylai'r Comisiynydd Marw â Chymorth yn Wirfoddol fod yn gallu cynnal ymchwiliadau i faterion heblaw'r rhai sydd wedi'u cyfeirio gan awdurdod cenedlaethol ac i gynhyrchu adroddiadau ychwanegol, gan gynnwys adroddiadau ar feysydd sy'n peri pryder ac ymchwiliadau ar ei liwt ei hun. Dylai hefyd nodi a yw'r Bil fel y'i drafftwyd ar hyn o bryd, yn galluogi hyn ym marn Llywodraeth Cymru..... 29

Argymhelliad 4. Yn ei ymateb i'r adroddiad hwn, dylai'r Ysgrifennydd Cabinet nodi pa ystyriaeth a roddwyd gan Lywodraeth Cymru i greu Comisiynydd Marw â Chymorth yn Wirfoddol dros Gymru, ac os diystyriwyd hyn, beth oedd y rhesymau dros hynny. 29

Argymhelliad 5. Yn ei ymateb i'r adroddiad hwn, dylai'r Ysgrifennydd Cabinet nodi sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynyddu nifer y staff sy'n siarad Cymraeg ac sy'n gallu darparu gwasanaethau marw â chymorth yn wirfoddol drwy gyfrwng y Gymraeg.333

Argymhelliad 6. Yn ei ymateb i'r adroddiad hwn, dylai'r Ysgrifennydd Cabinet nodi sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu sicrhau darpariaeth ddigonol o wasanaethau marw â chymorth yn wirfoddol i bobl nad y Gymraeg na'r Saesneg yw eu hiaith gyntaf.333

1. Y cefndir

Y Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes)

1. Cyflwynwyd y Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes)¹ ("y Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 16 Hydref 2024. Mae'n fil aelod preifat ac fe'i noddir gan Kim Leadbeater, yr Aelod Seneddol dros Spen Valley.
2. Mae'r Bil yn ymwneud â rhoi dewis i bobl ar ddiwedd eu hoes, i ganiatáu i oedolion sy'n derfynol sâl, yn amodol ar fesurau diogelu ac amddiffyn, ofyn am gymorth i ddod â'u bywyd eu hunain i ben, a chael y cymorth hwnnw.
3. Ar hyn o bryd, yn rhinwedd adran 2 o Ddeddf Hunanladdiad 1961, mae'n drosedd cynorthwyo neu annog yn fwriadol hunanladdiad neu ymgais i gyflawni hunanladdiad gan berson arall. Bydd y Bil, os caiff ei basio, yn nodi, os bydd unrhyw berson yn cynorthwyo oedolyn sy'n derfynol sâl i ddod â'i fywyd i ben yn unol â'r gweithdrefnau a nodir yn y Bil, na fydd cymorth o'r fath yn drosedd o dan adran 2. Bydd hyn yn sicrhau nad yw'r ymarferydd meddygol cofrestredig, nac unrhyw berson arall sy'n helpu'r person sy'n derfynol sâl i geisio cymorth o dan y Ddeddf, yn wynebu atebolrwydd troseddol am wneud hynny.
4. Cyflawnir amcan polisi'r Bil yn gyntaf drwy ddiwygio Deddf Hunanladdiad 1961 i warchod y rhai sy'n gweithredu yn unol â'r Bil rhag atebolrwydd troseddol. Yn ail, fe'i cyflawnir drwy reoleiddio sut y mae rhaid darparu cymorth er mwyn elwa ar y warchodaeth honno. Felly, os bydd person yn cynorthwyo hunanladdiad rhywun arall heblaw yn unol â'r Bil, bydd hynny'n parhau i fod yn drosedd o dan adran 2 o Ddeddf Hunanladdiad 1961.

2. Y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol

5. Ar 9 Ebrill 2025, gosododd Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd a Gofal Cymdeithasol ("yr Ysgrifennydd Cabinet") femorandwm cydsyniad deddfwriaethol² ("y Memorandwm") ar gyfer y Bil.

¹ Y Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes), fel y'i diwygiwyd yn y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus

² Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes)

6. Gosodwyd Memorandwm atodol, “Memorandwm Rhif 2”,³ ar 4 Gorffennaf 2025. Roedd y memorandwm hwn yn ymwneud â gwelliannau a dderbyniwyd yn ystod cyfnod Adrodd y Bil yn Nhŷ'r Cyffredin, a gynhaliwyd ar 20 Mehefin 2025.

Ein hymchwiliad ni

7. Ar 29 Ebrill 2025, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm atom, a'r dyddiad cau cychwynnol ar gyfer cyflwyno adroddiad oedd 27 Mehefin 2025. Estynnwyd y dyddiad hwnnw wedi hynny tan 10 Hydref 2025. Cyfeiriwyd y Memorandwm hefyd at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

8. Gwnaethom gyhoeddi galwad fer am dystiolaeth ysgrifenedig ar y Memorandwm, ac rydym yn ddiolchgar i'r rhai a ymatebodd yn yr amser yr oeddem yn gallu ei gynnig. Llywiodd yr ymatebion hynny sesiwn dystiolaeth lafar gyda'r Ysgrifennydd Cabinet ar 16 Gorffennaf 2025. Mae copi o'n llythyr a'r ymatebion a gawsom ar gael ar wefan y Senedd.^{4 5}

9. Cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes Femorandwm Rhif 2 atom hefyd, a'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad oedd 10 Hydref 2025. Yn yr amser a oedd ar gael, ni fu modd inni ymgynghori ar Femorandwm Rhif 2, er inni holi'r Ysgrifennydd Cabinet am ei gynnwys yn ystod ein sesiwn dystiolaeth ar 16 Gorffennaf.

Y darpariaethau y ceisir cydsyniad ar eu cyfer

10. Mae paragraffau 3 i 6 o'r Memorandwm yn crynhoi'r Bil a'i amcanion polisi. Mae paragraff 7 o'r Memorandwm yn nodi safbwynt Llywodraeth Cymru ynghylch pa ddarpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer.

11. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad mewn perthynas â chymalau 37, 39, 45, 47, 50 a 54, gan fod y cymalau hyn yn “cynnwys darpariaeth o ran Cymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig ac sy'n golygu felly ei bod yn ofynnol cael cydsyniad.”⁶ Rhoddir crynodeb o'r cymalau hynny isod:

- **Cymal 37: Canllawiau ynghylch gweithredu'r Ddeddf** – mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Brif Swyddog Meddygol Cymru lunio a chyhoeddi canllawiau ynghylch gweithredu'r Ddeddf. Cyn llunio canllawiau, rhaid i'r

³ [Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol \(Memorandwm Rhif 2\) ar y Bil Oedolion Terfynol Sâl \(Diwedd Oes\)](#)

⁴ [Senedd Cymru – Cydsyniad Deddfwriaethol: y Bil Oedolion Terfynol Sâl \(Diwedd Oes\)](#)

⁵ Oni nodir yn wahanol, mae barn rhanddeiliaid y cyfeirir ati yn yr adroddiad hwn yn ymwneud â chynnwys y Memorandwm cyntaf. Mae rhai o'r darpariaethau hyn wedi eu diwygio ers hynny yn ystod taith y Bil drwy Senedd y DU.

⁶ [Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Oedolion Terfynol Sâl \(Diwedd Oes\), paragraff 7.](#)

Prif Swyddog Meddygol ymgynghori ag unigolion a grwpiau perthnasol, gan gynnwys pobl ag anableddau dysgu, a sicrhau bod y canllawiau'n ymarferol ac yn hygyrch.

- **Cymal 39: Gwasanaethau Marw â Chymorth yn Wirfoddol: Cymru** – mae'r Bil yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch sut y mae gwasanaethau marw â chymorth yn wirfoddol yn gweithio'n ymarferol yng Nghymru. Gellir teilwra'r rheoliadau hyn i wahanol sefyllfaoedd (megis ysbytai neu gartrefi gofal), a gallant gynnwys trefniadau technegol neu drosiannol.
- **Cymal 45: Monitro gan y Comisiynydd** – mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd Marw â Chymorth yn Wirfoddol (a benodir gan Brif Weinidog y DU) fonitro gweithrediad y Ddeddf, ymchwilio i unrhyw fater sy'n gysylltiedig â gweithrediad y Ddeddf y mae awdurdod cenedlaethol priodol yn ei gyfeirio at y Comisiynydd, rhoi adroddiad i'r awdurdod hwnnw ar hynny, a chyflwyno adroddiad blynyddol i bob awdurdod cenedlaethol priodol ynghylch gweithrediad y Ddeddf.
- **Cymal 47: Darparu gwybodaeth yn Gymraeg a Saesneg** – mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw wasanaeth, adroddiad, datganiad neu dystysgrif cymhwystra a ddarperir o dan y Ddeddf i berson sy'n ceisio cymorth i ddod â'i fywyd ei hun i ben fod yn iaith gyntaf y person, os yw'r Gymraeg neu'r Saesneg yn iaith gyntaf iddo, ac os nad yw'r un o'r ieithoedd hynny'n iaith gyntaf iddo, rhaid i'r hyn a ddarperir fod yn ei ddewis iaith o blith y Gymraeg neu'r Saesneg.
- **Cymal 50: Rheoliadau** – mae cymal 39 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch sut y mae gwasanaethau marw â chymorth yn wirfoddol yn gweithio'n ymarferol. Mae cymal 50 yn darparu bod rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r rheoliadau hynny cyn y gallant gael effaith.
- **Cymal 54: Cychwyn** – mae'r Bil yn cynnig y bydd darpariaethau'r Ddeddf (ac eithrio adrannau 43, a 49 i 55) yn dod i rym yng Nghymru ar ddiwrnod neu ddiwrnodau a bennir gan Weinidogion Cymru drwy reoliadau. Rhaid i'r rheoliadau hyn gael eu cymeradwyo gan y Senedd.

12. Mae paragraff 11 o Femorandwm Rhif 2 yn cadarnhau y derbyniwyd gwelliannau a oedd yn hepgor tri o'r cymalau hynny yn ystod y cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin, sef:

- cymal 37 (Canllawiau ynghylch gweithredu'r Ddeddf);
- cymal 47 (Darparu gwybodaeth yn Gymraeg a Saesneg);
- cymal 54(6) (Cychwyn).

13. Mae paragraff 13 o Femorandwm Rhif 2 yn ceisio cydsyniad y Senedd ar gyfer tri gwelliant arall a gyflwynwyd yn y cyfnod Adrodd, sy'n gwneud darpariaeth newydd mewn perthynas â'r un materion â'r cymalau a hepgorwyd ynghylch:

- **cymal 37 gynt, cymal 40 newydd (Canllawiau ynghylch gweithredu'r Ddeddf)** – mae'r ddarpariaeth hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i ddyroddi canllawiau sy'n ymwneud â gweithredu'r Ddeddf yng Nghymru, ynghylch materion sydd o fewn cymhwysedd datganoledig. Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori cyn arfer y pŵer. Mae hefyd yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol i ddyroddi canllawiau sy'n ymwneud â gweithredu'r Ddeddf, gan gynnwys mewn perthynas â materion y gall Gweinidogion Cymru ddyroddi canllawiau yn eu cylch; felly, mae'n creu pŵer cydredol.
- **cymal 47 gynt, cymal 51 newydd (Darpariaeth ynghylch y Gymraeg)** – mae'r cymal hwn yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru, wrth wneud rheoliadau o dan gymal 42 (cymal 39 gynt) i wneud darpariaeth mewn rheoliadau ar gyfer Gwasanaethau Marw â Chymorth yn Wirfoddol yng Nghymru, i gynnwys unrhyw ddarpariaeth y maent yn ystyried ei bod yn briodol i sicrhau, os bydd person sy'n ceisio cymorth o dan y Ddeddf yn nodi ei fod yn dymuno cyfathrebu yn Gymraeg, y cymerir pob cam rhesymol i sicrhau bod cyfathrebu'n digwydd yn Gymraeg a bod adroddiadau yn Gymraeg. Mae hefyd yn darparu, ar ôl i berson nodi ei fod yn dymuno cyfathrebu yn Gymraeg, fod rhaid i'r Comisiynydd gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod cyfathrebu'n digwydd yn Gymraeg a bod aelodau'r panel yn siarad Gymraeg. Yn olaf, mae'n darparu, wrth wneud rheoliadau sy'n darparu ar gyfer fformat y datganiadau, adroddiadau'r meddygon a'r datganiad terfynol, y dylai rheoliadau'r Ysgrifennydd Gwladol ar y materion hynny wneud darpariaeth i'r ffurfiau fod yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- **cymal 54(6) gynt, cymal 58(5) newydd (Cychwyn)** – mae'r cymal hwn yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, gychwyn adrannau 42(1) a (2) a 51(2) a (3). Mae cymal 42 yn cynnwys pŵer i ddarparu, mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru, ar gyfer Gwasanaethau

Marw â Chymorth yn Wirfoddol yng Nghymru. Mae cymal 51(2) a (3) yn ymwneud â'r pŵer i gynnwys darpariaeth sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn y Rheoliadau hynny, a drafodir ym mharagraff 2 uchod. Nid yw rheoliadau cychwyn o dan y ddarpariaeth hon yn ddarostyngedig i unrhyw un o weithdrefnau'r Senedd. Mae cymal 58(4) yn cynnwys "dyddiad olaf un" o bedair blynedd, h.y. mae'n darparu y bydd unrhyw un neu ragor o ddarpariaethau'r Bil nad ydynt wedi dod i rym o fewn pedair blynedd i gael y Cydsyniad Brenhinol yn cael eu cychwyn.

Safbwynt Llywodraeth Cymru

14. Dywed paragraff 26 o Femorandwm Rhif 2 fod Llywodraeth Cymru yn "niwtral" ynglŷn â mater marw â chymorth yn wirfoddol ac "o ganlyniad i hynny ynglŷn â'i briodoldeb a'i gynnwys mewn Bil gan y DU".

15. Dywed paragraff 12 o Femorandwm Rhif 2 fod swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio'n "adeiladol" gyda swyddogion Llywodraeth y DU a noddwr y Bil i:

"sicrhau bod buddiannau Llywodraeth Cymru yn cael eu hystyried wrth ddrafftio'r Bil, a bod y setliad datganoli yn cael ei barchu yn ystod proses y Bil. Mae hyn wedi cynnwys cyfarfodydd technegol wythnosol."

Goblygiadau ariannol

16. Dywed paragraffau 22 i 25 o Femorandwm Rhif 2:

"22. Mae'r goblygiadau ariannol wedi'u nodi yn asesiad effaith Llywodraeth y DU a amcangyfrifodd y costau ar gyfer Cymru a Lloegr, heb unrhyw ddadansoddiad penodol ar gyfer Cymru:

Categori	Cost amcangyfrifedig
<i>Ymgyrch addysg gychwynnol i sicrhau bod staff iechyd a gofal cymdeithasol yn ymwybodol o'r newidiadau a'r hyn y maent yn ei olygu</i>	<i>£550k - £850k</i>
<i>Hyfforddiant</i>	<i>£1.23m - £11.5m Blwyddyn 1 (hanner blwyddyn) £1.53m – £9.71m Blwyddyn 10</i>

<i>Amser staff i ddarparu gwasanaethau marw â chymorth yn wirfoddol</i>	<i>£412k – £1.98m Blwyddyn 1 (hanner blwyddyn) £2.62m - £11.5m Blwyddyn 10</i>
<i>Comisiynydd Marw â Chymorth yn Wirfoddol a chymeradwyaeth y panel</i>	<i>£10.9m - £13.6m y flwyddyn</i>

23. Amcangyfrif bras iawn o amser staff i ddarparu gwasanaethau marw â chymorth yn wirfoddol wedi'i gyfrifo yn ôl cyfran y nifer amcangyfrifedig o farwolaethau â chymorth yng Nghymru yw:

£26k – £123k ym Mlwyddyn 1 (hanner blwyddyn) a

£163k – £716k ym Mlwyddyn 10

24. Amcangyfrifodd yr Asesiad Effaith nifer yr ymgeiswyr a marwolaethau â chymorth yng Nghymru fel a ganlyn:

- Y nifer amcangyfrifedig o ymgeiswyr yng Nghymru ym Mlwyddyn 1 (sef hanner blwyddyn) yw **17 - 80**
- Y nifer amcangyfrifedig o ymgeiswyr yng Nghymru ym Mlwyddyn 10 yw **106 - 462**
- Y nifer amcangyfrifedig o farwolaethau â chymorth yng Nghymru ym Mlwyddyn 1 (sef hanner blwyddyn) yw **10 - 48**
- Y nifer amcangyfrifedig o farwolaethau â chymorth yng Nghymru ym Mlwyddyn 10 yw **63 - 277**

25. Byddwn yn parhau i ystyried unrhyw oblygiadau ariannol posibl wrth i'r Bil fynd drwy Senedd y DU."

Barn Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch cydsyniad

17. Dywed paragraff 8 o'r Memorandwm a pharagraff 17 o Femorandwm Rhif 2 nad yw Llywodraeth y DU wedi cadarnhau ei safbwynt ynghylch a yw o'r farn bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y Bil hwn, fel y'i diwygiwyd, ond ei bod wedi cydnabod bod rhai cymalau'n torri ar draws materion datganoledig.

18. Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r asesiad hwn ac yn dweud ei bod yn parhau i gysylltu â Llywodraeth y DU ac asesu'r safbwynt hwn wrth i'r Bil fynd rhagddo.

3. Darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

Darparu gwasanaethau marw â chymorth yn wirfoddol yng Nghymru

19. Mae cymal 42 (cymal 39 gynt) yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch sut y mae gwasanaethau marw â chymorth yn wirfoddol yn gweithio'n ymarferol yng Nghymru. Gellir teilwra'r rheoliadau hyn i wahanol sefyllfaoedd (megis ysbytai neu gartrefi gofal), a gallant gynnwys trefniadau technegol neu drosiannol. Mae rheoliadau a wneir o dan y pŵer hwn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

Tystiolaeth gan randdeiliaid

20. Roedd safbwynt y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'n hymgyngghoriad yn niwtral ynghylch egwyddor marw â chymorth ac ynghylch y Bil ei hun. Fodd bynnag, dywedodd Coleg Brenhinol y Seiciatryddion Cymru na all gefnogi'r Bil ar ei ffurf bresennol.⁷

21. Er gwaethaf eu safbwynt niwtral mewn egwyddor ynghylch marw â chymorth, roedd gan rai ymatebwyr bryderon sylweddol ynghylch gweithrediad marw â chymorth yng Nghymru. Dywedodd y Comisiynydd Pobl Hŷn ei bod yn anodd gwneud sylw heb weld manylion y rheoliadau.

22. Soniodd nifer o randdeiliaid am bryderon ynghylch yr anghysondeb posibl rhwng Cymru a Lloegr o ran y ffordd y bydd gwasanaethau'n gweithredu, a phe bai marw â chymorth yn cael ei weithredu ar adegau gwahanol yn y ddwy wlad. Roeddent o'r farn y gallai hyn arwain at ansicrwydd i gleifion ynghylch y gwasanaethau sydd ar gael iddynt yn ogystal â heriau gweithredol i weithwyr proffesiynol, yn enwedig o ran cleifion mewn ardaloedd ar y ffin sydd, o bosibl, yn cael gofal iechyd a gofal cymdeithasol gan wasanaethau ar ochr arall y ffin.

23. Roedd yr angen i ddeall y goblygiadau i'r gweithlu pe bai'r Bil yn cael ei basio yn thema allweddol, oherwydd y bydd hyn yn golygu darparu gwasanaethau

⁷ TIA04 Coleg Brenhinol y Seiciatryddion Cymru (Saesneg yn unig)

ychwanegol a rhagor o gyfrifoldebau i weithwyr proffesiynol perthnasol. Yn ôl Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain (BASW Cymru):

“... with a workforce already operating at capacity levels, issues around resources, training and timely availability will be significant.”⁸

24. Dywedodd ymatebwyr wrthym hefyd y bydd angen datblygu safonau a sicrhau hyfforddiant priodol i bob gweithiwr proffesiynol sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau marw â chymorth.

25. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth i glinigwyr optio allan o gymryd rhan yn y ddarpariaeth o wasanaethau marw â chymorth yn wirfoddol. Nid yw'n glir beth yw'r lefel debygol o optio allan yng Nghymru a Lloegr, a gallai hyn effeithio ar y ddarpariaeth o wasanaethau. Dywedodd Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu Cymru:

“There should be a right to refuse to participate in the process on any ground and statutory protection making it unlawful to discriminate against, or cause detriment to, any doctor on the basis of their decision to, or not to, participate in the assisted dying process.”⁹

26. Nododd ymatebwyr nad yw'r Bil, fel y'i drafftiiwyd ar hyn o bryd, yn rhoi'r un hawliau i weithwyr cymdeithasol o ran amddiffyniad cyfreithiol a gwrthwynebiad cydwybodol, ag sydd gan weithwyr iechyd proffesiynol. Diwygiwyd y Bil ar 20 Mehefin 2025 i gryfhau amddiffyniadau cyflogaeth i weithwyr proffesiynol perthnasol.

27. Roedd cytundeb cyffredinol bod y pŵer i wneud rheoliadau yn briodol yn nwylo Gweinidogion Cymru. Ar ben hynny, roedd cytundeb eang fod rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r rheoliadau hynny. Dywedodd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru:

“Given the complexity and sensitivity of these services, we support affirmative procedures for any regulations made under Clause 39 or Clause 54.”¹⁰

⁸ TIA02 BASW Cymru

⁹ Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu Cymru (Saesneg yn unig)

¹⁰ TIA07 ADSS Cymru (Saesneg yn unig)

Tystiolaeth gan yr Ysgrifennydd Cabinet

28. Gwnaethom ofyn i'r Ysgrifennydd Cabinet nodi safbwynt Llywodraeth Cymru o ran y Bil. Gwnaethom ofyn hefyd a fyddai'r Bil, fel y'i drafftwyd ar hyn o bryd, yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru dros pa bryd y caiff y gyfraith ei deddfu yng Nghymru, neu a fydd hi'n cael ei deddfu.

29. Dywedodd wrthym fod safbwynt Llywodraeth Cymru wedi bod, ac yn parhau i fod, yn niwtral. O ran y pwerau i ddeddfu'r ddeddfwriaeth, dywedodd fod rhaid gwahaniaethu rhwng deddfu'r ddeddfwriaeth a gweithredu'r ddeddfwriaeth:

"In terms of the enactment of it, the commencement of it, that is a power in the hands of the Secretary of State, because the Bill, as you will know, operates effectively by way of amendment to the Suicide Act 1961, which is entirely reserved. So, the commencement is in the hands of the Secretary of State.

*But in relation to the provision of voluntary assisted dying services in Wales or not, clause 42 of the Bill, as it's currently drafted, provides that those services could only be introduced in devolved areas following regulations laid by the Welsh Ministers in the Senedd and subject to an affirmative Senedd vote."*¹¹

30. Eglurodd fod y pwerau gwneud rheoliadau yn rhai a roddir yn ôl disgresiwn:

*"In order for those regulations to be laid, which would be necessary in order for, for example, the NHS to provide this service in Wales, then a Welsh Government [...] would need to make a policy decision to be open to introducing the service, then to lay the regulations, and for the Senedd to approve those. That's in relation to services provided in the public sector, if you like, by the NHS, because that's within devolved competence."*¹²

31. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet ei fod o'r farn bod hyn yn gymesur, oherwydd byddai angen cytundeb y Senedd i gyflwyno'r rheoliadau a, heb y cytundeb hwnnw, na fyddai'r GIG yng Nghymru yn gallu darparu gwasanaethau marw â chymorth.

¹¹Cofnod y Trafodion, 16 Gorffennaf 2025, paragraff 10

¹²Cofnod y Trafodion, 16 Gorffennaf 2025, paragraff 12

32. Aeth ymlaen i ddweud, o ystyried amseriad y ddeddfwriaeth ac etholiad y Senedd yn 2026, mai llywodraeth yn y Senedd nesaf fyddai'n gyfrifol am fwrw ymlaen â'r ddeddfwriaeth hon i bob pwrpas.

33. Eglurodd ymhellach, gan fod y Bil yn gweithredu drwy ddiwygio Deddf Hunanladdiad 1961, y byddai opsiynau yng Nghymru a Lloegr ar gyfer darparu gwasanaethau heblaw yn y sector cyhoeddus:

*"In those areas, the Welsh Government already has regulatory powers in relation to some independent healthcare provision. The precise mix of regulatory powers for non-public provision in Wales would depend upon who is providing it and what they are providing. But we are confident that the Bill provides appropriate regulatory powers, whether it's provided in the public sector or in the independent sector."*¹³

34. Yn olaf, cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Cabinet, yn rhinwedd pŵer gwneud rheoliadau Gweinidogion Cymru yng nghymal 42, y bydd Gweinidogion Cymru yn rheoli'r gwaith o weithredu'r Bil yng Nghymru, hyd yn oed os bydd y gwaith gweithredu yn mynd rhagddo ar wahân mewn perthynas â Lloegr. At hynny, bydd unrhyw reoliadau Gweinidogion Cymru o'r fath yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd.¹⁴

35. Gwnaethom ofyn i'r Ysgrifennydd Cabinet am y goblygiadau i'r GIG yng Nghymru, pe bai marw â chymorth yn dod yn gyfraith yn Lloegr, ac na fyddai Cymru yn dilyn yr un trywydd. Dywedodd wrthym:

*"... in the scenario that you describe, where—and it may be a matter of timing, as opposed to a matter of principle, obviously—there is a service that is operating in England, but it is not or is not yet operating in Wales, the sorts of things that we'd be thinking about in that context, I guess, are: people crossing the border for services, distances to services, equality of experience. I think it depends on why a decision either hasn't been taken, or hasn't yet been taken, to implement the service. There are quite familiar cross-border questions that I think we'd be thinking of—or the Government in the new Senedd would need to be thinking of."*¹⁵

¹³Cofnod y Trafodion, 16 Gorffennaf 2025, paragraff 13

¹⁴Cofnod y Trafodion, 16 Gorffennaf 2025, paragraff 14

¹⁵Cofnod y Trafodion, 16 Gorffennaf 2025, paragraff 40

36. O ran y sefyllfa gyfansoddiadol pe bai'r Senedd yn gwrthwynebu'r Cynnig ar gyfer y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod y sefyllfa honno yn un sydd wedi'i sefydlu a bod "confensiwn Sewel yn gweithredu yn yr un ffordd i'r ddeddfwriaeth hon ac i unrhyw ddeddfwriaeth arall. Felly, byddwn i'n disgwyl i'r un egwyddorion fod yn berthnasol i'r Cynnig hwn."¹⁶

37. Wrth ymateb i gwestiynau am oblygiadau trawsffiniol, a'r posibilrwydd y gallai trigolion Cymru gael mynediad at wasanaethau marw â chymorth yn Lloegr, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

*"I don't think that's known yet, is the truth of it. Because the model hasn't been established on either side of the border, and the Bill isn't yet settled."*¹⁷

38. Gwnaethom ofyn i'r Ysgrifennydd Cabinet a oedd unrhyw waith yn cael ei wneud i ddeall a oedd yn debygol y byddai gwahaniaethau rhwng Cymru a Lloegr yn y ffordd y darperir gwasanaethau marw â chymorth. Dywedodd wrthym ei fod yn rhagweld y byddai rhywfaint o waith rhagarweiniol yn dechrau yn ystod tymor yr hydref, ac aeth ymlaen i ddweud:

*"... the most likely scenario is that a Government of the new Senedd would need to make a decision about whether, in principle, it's looking to introduce these services, and then that would kick off a wide range of consultation, operational planning, workforce planning, policy development."*¹⁸

39. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod asesiad rhagarweiniol o anghenion staff o ran hyfforddiant wedi'i wneud:

*"We think—and this is a quite a rough-and-ready calculation at this point; obviously, this will become refined as and when, if the legislation goes forward—that just under 50,000 NHS and social care professionals would be eligible for what's being described as tier 1 training in Wales, which is the general awareness training for GPs, for nurses, for pharmacists. Then we've got tier 2 training, which is the more in-depth training for specialists, and it builds on that."*¹⁹

¹⁶Cofnod y Trafodion, 16 Gorffennaf 2025, paragraff 45

¹⁷Cofnod y Trafodion, 16 Gorffennaf 2025, paragraff 49

¹⁸Cofnod y Trafodion, 16 Gorffennaf 2025, paragraff 58

¹⁹Cofnod y Trafodion, 16 Gorffennaf 2025, paragraff 60

40. Dywedodd mai rhwng £80,000 a £750,000 fyddai'r costau hyfforddi amcangyfrifedig ar gyfer Cymru ond mai ffigur bras iawn oedd hwn.

41. O ran yr effaith bosibl ar staffio, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet yr amcangyfrifir mai nifer fach o bobl fyddai'n gwneud ceisiadau o dan y ddeddfwriaeth yng Nghymru:

*"So, from the impact assessment, it suggests the number of applicants in year 1 at between 17 and 66, and the number of assisted deaths in year 1 at between 10 and 40, but, obviously, that increases over time. So, the level of demand on the service, as currently envisaged, is also small."*²⁰

42. O ran y darpariaethau optio allan, gwnaethom ofyn i'r Ysgrifennydd Cabinet a oedd yn teimlo bod y Bil yn cynnig digon o amddiffyniad i bob gweithiwr proffesiynol perthnasol a allai fod am optio allan. Mewn ymateb, dywedodd fod y Bil wedi'i ddrafftio'n eang a'i fod yn berthnasol i unrhyw berson ac nid gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn unig. Felly, byddai unrhyw un sy'n dewis peidio â chymryd rhan yn cael ei amddiffyn rhag atebolrwydd troseddol neu sifil. Aeth ymlaen i ddweud:

*"So, effectively, the legislation is saying that, for any individual (...) engaging in a service, being part of its provision, it is entirely voluntary. And there is an explicit provision, which I welcome, that any employee who exercises the right not to be involved should not be subject to discrimination or disadvantage in the employment space, in the usual way. So, I'm confident that the Bill is well drafted in relation to that."*²¹

43. Gwnaethom ofyn i'r Ysgrifennydd Cabinet egluro beth fyddai rôl darparwyr nad ydynt yn rhan o'r GIG, er enghraifft sefydliadau annibynnol, gwirfoddol neu elusennol, wrth ddarparu gwasanaethau marw â chymorth yng Nghymru (ni waeth a yw Llywodraeth Cymru yn cyflwyno rheoliadau ar gyfer darpariaeth y GIG ai peidio). Cadarnhaodd, gan fod y Bil yn gweithredu drwy newid y Ddeddf Hunanladdiad, ei fod yn caniatáu darpariaeth nad yw'n ddarpariaeth cyhoeddus yng Nghymru, heb reoleiddio gan Lywodraeth Cymru. Aeth ymlaen i ddweud:

"the Welsh Government and the Senedd already has powers to regulate some independent healthcare provision in Wales. So,

²⁰Cofnod y Trafodion, 16 Gorffennaf 2025, paragraff 83

²¹Cofnod y Trafodion, 16 Gorffennaf 2025, paragraff 68

there'll be a suite of powers that could be available—it depends on what the service is and who's providing it, which, obviously, at this point, we don't know. But there's a body of regulatory powers there, which lie in our hands. But there are also powers in this legislation that are in the hands of the Secretary of State, because that's a reserved space, which provide what we think are an appropriate range of powers to regulate provision.

So, whether it's regulation from Wales or whether it's regulation from Parliament will depend on who the provider is and the mix of things they are providing. But we are confident that the range of scenarios will be covered by appropriate regulatory powers.”²²

44. Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Cabinet, pe na bai gwasanaethau marw â chymorth gwirfoddol yn cael eu darparu gan y GIG yng Nghymru, y byddai'n bosibl i ddarparwr preifat ddarparu'r gwasanaethau hynny. Cytunodd y gallai hyn arwain at sefyllfa yng Nghymru lle gallai'r rhai a allai fforddio talu am wasanaeth marw â chymorth gael mynediad at hynny, ond pwysleisiodd mai senario damcaniaethol oedd hwn ac y byddai angen i unrhyw lywodraeth wneud llawer o ddewisiadau o ran sut y byddai gwasanaeth o'r fath yn cael ei ddatblygu a'i ddarparu.²³

45. Gwnaethom ofyn i'r Ysgrifennydd Cabinet am fynediad at gefnogaeth a gwasanaethau i bobl niwroamrywiol. Dywedodd wrthym:

“So, the Bill already mandates that medical practitioners who would be involved in delivering voluntary assisted dying services have to undergo specific training, and that includes safeguards for autistic individuals. So, there's provision in terms of the staff training dimension already.”²⁴

²²Cofnod y Trafodion, 16 Gorffennaf 2025, paragraff 97

²³Cofnod y Trafodion, 16 Gorffennaf 2025, paragraffau 107 a 109

²⁴Cofnod y Trafodion, 16 Gorffennaf 2025, paragraff 133

Effaith ar ofal lliniarol a gofal diwedd oes

Tystiolaeth gan rhanddeiliaid

46. Cytunodd rhanddeiliaid, waeth beth fo unrhyw newid deddfwriaethol o ran marw â chymorth, fod angen gwella gofal lliniarol yng Nghymru ar frys. Dywedodd Marie Curie:

“Whether the law on assisted dying changes or not, urgent action is needed to transform end of life care and ensure that everyone can access the right care, in the right place, at the right time, in their last phase of their life.”²⁵

47. Nododd Marie Curie hefyd, er bod y mater gofal lliniarol a gofal diwedd oes wedi bod yn rhan amlwg o'r drafodaeth ynghylch y Bil, nad oes cysylltiad sylfaenol rhwng marw â chymorth a gofal lliniarol/diwedd oes.

48. Cododd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru bryderon nad oedd y Bil yn mynd i'r afael â'r cyd-destun cymdeithasol a pholisi ehangach. Dywedodd:

“Pe bai'r Bil yn pasio, ni ddylai neb deimlo bod angen iddo ddefnyddio gwasanaeth marw â chymorth oherwydd nad oes gofal lliniarol digonol ar gael neu oherwydd mai hwn yw'r opsiwn gorau am nad oes digon o ofal lliniarol o ansawdd da ar gael.”²⁶

49. Disgrifiodd rhanddeiliaid marw â chymorth fel gwasanaeth annibynnol, ar wahân a fyddai'n gofyn am adnoddau digonol. Yn hollbwysig, gwnaethant ddadlau na ddylai gweithredu darpariaeth marw â chymorth gael effaith negyddol ar gyllid ar gyfer gofal lliniarol.

50. Dywedodd yr Athro Mark Taubert, Cyfarwyddwr Clinigol a Meddyg Ymgynghorol Gofal Lliniarol, Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ac Ysgol Feddygaeth Prifysgol Caerdydd:

“Evidence from around the world that the introduction of assisted dying adversely affects the provision of palliative care

²⁵ TIA05 Marie Curie (Saesneg yn unig)

²⁶ TIA01 Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

services. Palliative care funding has been proportionally lower in areas with assisted dying.”²⁷

51. Tynnodd Hospice UK sylw at y pwysau ariannol a brofir gan ddarparwyr gofal lliniarol yng Nghymru a'r angen i ddiogelu gwasanaethau hosbis a gofal lliniarol cyn gweithredu unrhyw gymorth i farw:

“It would be unconscionable for funding for an assisted death to be fully met by the state, while other core and specialist palliative care services remained paid for by an ad hoc and increasingly inadequate combination of charitable gifts, hospice shops and statutory funding. Less than a third of Welsh hospice funding comes from Government.”²⁸

52. Amlygodd Coleg Brenhinol y Seiciatryddion Cymru fod gofal seicolegol yn rhan sylfaenol o ofal lliniarol da, ond bod angen gwella mynediad at y gefnogaeth hon mewn hosbisau yn y DU:

“Until the provision of such care is improved, it is difficult to see how a person could be determined to be making a choice between options on AD/AS [assisted dying/assisted suicide].”²⁹

Tystiolaeth gan yr Ysgrifennydd Cabinet

53. Gwnaethom ofyn pa ymrwymadau fyddai'r Ysgrifennydd Cabinet yn gallu eu rhoi ynglŷn â diogelu a chryfhau gofal lliniarol.

54. Dywedodd fod mwy na £16 miliwn y flwyddyn yn cael ei fuddsoddi mewn darparu mynediad teg at ofal lliniarol a gofal diwedd oes, neu gynyddu mynediad teg. Dywedodd hefyd fod gwaith yn mynd rhagddo gyda hosbisau, bwrdd rhaglen gofal lliniarol a diwedd oes genedlaethol, a'r cyd-bwyllgor comisiynu, i fynd i'r afael â nifer o heriau y mae hosbisau yn benodol yn eu hwynebu ac, ochr yn ochr â hyn, fod gwaith ar y gweill i ddatblygu manyleb a fframwaith comisiynu ar gyfer hosbisau yn benodol, a oedd yn ymwneud â hosbisau i oedolion a phlant. Roedd disgwyl i'r gwaith hwn gael ei gwblhau erbyn mis Ebrill 2026.

²⁷ TIA08 Yr Athro Mark Taubert, Cyfarwyddwr Clinigol a Meddygaeth Lliniarol Ymgynghorol: Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ac Ysgol Feddygaeth Prifysgol Caerdydd (Saesneg yn unig)

²⁸ TIA06 Hospice UK (Saesneg yn unig)

²⁹ TIA04 Coleg Brenhinol y Seiciatryddion Cymru (Saesneg yn unig)

55. Mewn ymateb i'r dystiolaeth gan Goleg Brenhinol y Seiciatryddion ynghylch mynediad at ofal seicolegol fel rhan o ofal lliniarol, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym:

*"(...) I absolutely agree that access to psychological care as part of that broader palliative care, end-of-life range of care options, quite separate from the Bill, really, but clearly relevant as well, is crucially important. The quality statement for palliative and end-of-life care has a lot to say about expectations in relation to delivering it, but I absolutely agree it's critical."*³⁰

56. Gofynnwyd hefyd i'r Ysgrifennydd Cabinet am bryderon a fynegwyd gan y trydydd sector y byddai cyllid ar gyfer gwasanaeth marw â chymorth newydd yn tynnu cyllid oddi wrth ofal lliniarol. Yn ei ymateb, dywedodd fel a ganlyn:

*"To be clear, I would make no case whatsoever for diversion of funding from palliative care into voluntary assisted dying services. I think it's a separate and new service, if it were to be provided, and I think it would be the wrong thing to do to make the transfer that you've talked about. I would find it very difficult to see a Government wanting to do that, candidly—although I understand the concern."*³¹

Ein barn ni

57. Fel Pwyllgor, rydym yn cymryd safbwynt niwtral ar y mater marw â chymorth yn wirfoddol i oedolion sy'n derfynol sâl. Mae ein hystyriaeth o'r Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes) wedi canolbwyntio'n llwyr ar ddarpariaethau'r Bil hwnnw sy'n destun y ddau femoranda cydsyniad deddfwriaethol a osodwyd gerbron y Senedd.

58. Wrth ystyried y memoranda hynny, rydym yn ymwybodol, o ystyried bod y Bil yn destun newid wrth iddo symud trwy'r gwahanol gyfnodau diwygio yn neddfwrfa'r DU, fod cymaint yn anhysbys o hyd am ei ffurf derfynol, sefydledig yn ogystal â'i weithrediad ymarferol. Felly, mae ein trafodaethau a'n hystyriaethau o unrhyw senarios yn y dyfodol ar gyfer ei weithredu wedi bod yn gwbl ddamcaniaethol eu natur.

³⁰Cofnod y Trafodion, 16 Gorffennaf 2025, paragraff 131

³¹Cofnod y Trafodion, 16 Gorffennaf 2025, paragraff 143

59. Yn ogystal, mae amseriad y Bil a pha mor agos ydyw at etholiadau'r Senedd yn 2026 yn golygu mai mater i unrhyw Lywodraeth Cymru yn y dyfodol fydd gweithredu'r polisi hwn, neu beidio, yng Nghymru.

60. O dan y Bil fel y'i drafftwyd ar hyn o bryd, dim ond ar ôl cymeradwyo rheoliadau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru y gellid cyflwyno darpariaeth ynghylch gwasanaethau marw â chymorth yng Nghymru gan y GIG. Credwn ei bod yn briodol i unrhyw Lywodraeth Cymru yn y dyfodol gael disgresiwn wrth gyflwyno unrhyw reoliadau o'r fath, gan gynnwys y dyddiad cychwyn arfaethedig, a chredwn fod y gofyniad i'r Senedd gymeradwyo rheoliadau o'r fath yn briodol ac yn gymesur.

61. Yn ogystal, o ystyried arwyddocâd y polisi, byddem yn disgwyl i unrhyw Lywodraeth gyfrifol yng Nghymru yn y dyfodol, wrth benderfynu cyflwyno rheoliadau yn y maes hwn, wneud hynny ar ffurf ddrafft er mwyn caniatáu amser ar gyfer cynnal ymgynghoriad cyhoeddus llawn ar eu cynnwys, ac archwiliad trylwyr gan y pwyllgorau perthnasol yn y Senedd.

62. Nodwn, wrth roi disgresiwn i Weinidogion Cymru gyflwyno rheoliadau ynghylch marw â chymorth, a thrwy ei gwneud yn ofynnol i'r Senedd gymeradwyo'r rheoliadau hynny, fod potensial i argaeledd gwasanaethau marw â chymorth fod yn wahanol yng Nghymru a Lloegr. Er ein bod yn cydnabod bod hyn yn nodwedd o'r setliad datganoli, rydym am dynnu sylw at oblygiadau sylweddol dull trawsffiniol anghymesur, gan gynnwys ansicrwydd ac anghydraddoldeb i gleifion, a heriau gweithredol i weithwyr gofal iechyd proffesiynol. Bydd angen i'r materion hyn, ymhlith eraill, fod yn destun ystyriaeth fanwl iawn gan unrhyw Lywodraeth Cymru yn y dyfodol wrth benderfynu ar ei ffordd o ymdrin â'r mater marw â chymorth.

63. O ran y potensial i ddarparu gwasanaethau marw â chymorth gan y sector preifat yng Nghymru, nodwn safbwynt yr Ysgrifennydd Cabinet fod pwerau rheoleiddio priodol ar gael i Weinidogion Cymru, pa un a yw'r gwasanaethau hynny i'w darparu yn y sector cyhoeddus neu'r sector preifat. Fel uchod, rydym am dynnu sylw at y goblygiadau i gleifion yng Nghymru, pe bai gwasanaethau marw â chymorth ar gael drwy'r GIG yn Lloegr ond yn y sector preifat yn unig yng Nghymru.

64. Yn fwy penodol, mewn perthynas â'r memoranda cydsyniad deddfwriaethol a safbwynt Llywodraeth Cymru ynghylch pa ddarpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer, nodwn fod Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu dull cul o ran cydsyniad. Pe bai'r Llywodraeth wedi mabwysiadu dull ehangach,

gellid bod wedi ystyried bod cydsyniad yn ofynnol ar gyfer y rhan fwyaf o'r cymalau yn y Bil, a hynny ar y sail y bydd y gwasanaethau y mae'r Bil yn eu hystyried yn cael eu darparu'n bennaf mewn lleoliad gofal iechyd gan weithwyr gofal iechyd a gofal cymdeithasol. Felly, gellid eu dehongli'n rhesymol fel pe baent yn rhoi sylw i iechyd, sydd yn fater sydd wedi'i ddatganoli'n helaeth. Nodwn fod yr Ysgrifennydd Cabinet eisoes wedi gwrthod cais³² gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i ddarparu manylion asesiad Llywodraeth Cymru am gydsyniad ar y sail y byddai gwneud hynny'n hepgor braint broffesiynol gyfreithiol. Fodd bynnag, gan fod hwn yn bwnc mor arwyddocaol, credwn y dylai Llywodraeth Cymru roi rhywfaint o esboniad cyhoeddus am ei phenderfyniadau ynghylch darpariaethau'r Bil a fyddai'n destun cais am gydsyniad.

Casgliad 1. Fel Pwyllgor, rydym yn cymryd safbwynt niwtral ar y mater marw â chymorth yn wirfoddol i oedolion sy'n derfynol sâl. Felly, nid ydym yn cynnig unrhyw farn ynghylch a ddylai'r Senedd gefnogi'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol na Memorandwm Rhif 2. Mae hwn yn fater o gydwybod i Aelodau unigol.

Casgliad 2. Pe bai rheoliadau'n cael eu cyflwyno yn y dyfodol i weithredu gwasanaethau marw â chymorth yng Nghymru, byddem yn disgwyl i unrhyw Lywodraeth gyfrifol yng Nghymru yn y dyfodol wneud hynny ar ffurf ddrafft ar gyfer cynnal ymgynghoriad cyhoeddus eang, a sicrhau bod digon o amser ar gael i bob pwyllgor perthnasol yn y Senedd gynnal archwiliad llawn a thrylwyr o fanylion y rheoliadau hynny. Yn ogystal, byddem yn disgwyl i'r rheoliadau hynny fod ar ffurf fanwl, gan nodi eu bwriadau polisi yn glir, a bod costau manwl yn cyd-fynd â hwy.

Argymhelliad 1. Yn ei ymateb i'r adroddiad hwn, dylai'r Ysgrifennydd Cabinet nodi pam ei fod wedi mabwysiadu dull cul wrth benderfynu pa ddarpariaethau o'r Bil ddylai fod yn destun cais am gydsyniad deddfwriaethol, pan fo mater 'iechyd' wedi'i ddatganoli'n helaeth. Gallai dehongliad ehangach, a oedd yn ystyried bod y gwasanaethau yn y Bil yn cael eu darparu'n bennaf mewn lleoliad gofal iechyd gan weithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol, fod wedi arwain at ystyried bod y rhan fwyaf o'r cymalau yn y Bil yn gofyn am gydsyniad ac felly'n destun gwaith craffu gan y Senedd hon.

65. Bydd goblygiadau clir i GIG Cymru os caiff y Bil yn cael ei basio a'i roi ar waith yng Nghymru, yn enwedig i'r gweithlu, a hynny o ran capasiti a hyfforddiant. Bydd deall effaith y Bil ar y gweithlu, gan gynnwys sut y bydd gwasanaethau'n cael eu darparu a'r cyfrifoldebau cynyddol sy'n dod law yn llaw â hynny, yn hanfodol.

³² Llythyr, 30 Mehefin 2025

Nodwn ddisgwyliad yr Ysgrifennydd Cabinet y bydd gwaith rhagarweiniol yn dechrau yn ystod tymor yr hydref i ystyried sut y gellid darparu gwasanaethau marw â chymorth yng Nghymru, gan gynnwys ystyried anghenion hyfforddi ychwanegol a rhai costau cyffredinol, a gofynnwn iddo roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni o bryd i'w gilydd am gynnydd y gwaith hwnnw. Rydym yn cydnabod mai mater i unrhyw Lywodraeth Cymru yn y dyfodol fydd gwneud unrhyw waith manwl a gwneud penderfyniadau.

Argymhelliad 2. Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor o bryd i'w gilydd am gynnydd y gwaith o baratoi ar gyfer goblygiadau gweithredu'r Bil yng Nghymru i'r gweithlu. Dylai hyn gynnwys, ymhlith materion eraill, ystyried cyfrifoldebau cynyddol staff, anghenion hyfforddi ychwanegol, digonolrwydd y gweithlu sy'n siarad Cymraeg (gweler hefyd argymhelliad 4), a chostau cychwynnol.

66. O ran y ddarpariaeth i staff gofal iechyd optio allan o ddarparu gwasanaethau marw â chymorth, nodwn fod yr Ysgrifennydd Cabinet yn hyderus bod y Bil yn gwneud darpariaeth ddigonol yn y maes hwn, er nad yw'r lefel optio allan debygol yn glir ar hyn o bryd. Nodwn ymhellach ei sicrwydd bod y Bil, fel y'i diwygiwyd, yn estyn y tu hwnt i weithwyr gofal iechyd proffesiynol ac yn rhoi digon o amddiffyniad rhag gwahaniaethu neu anfantais yn y gweithle i unrhyw weithiwr sy'n arfer yr hawl i beidio ag ymwneud â darparu gwasanaethau marw â chymorth. O ran darparwyr nad ydynt yn rhan o'r GIG, nodwn fod yr Ysgrifennydd Cabinet yn hyderus bod pwerau rheoleiddio priodol eisoes ar waith ar gyfer Gweinidogion Cymru.

Gofal lliniarol a gofal diwedd oes

67. Mae gennym bryderon gwirioneddol ynghylch effeithiau tymor hwy'r Bil ar ddarpariaeth gofal lliniarol a gofal diwedd oes yng Nghymru, yn enwedig o ran cyllid. Ni ddylai neb deimlo bod rheidrwydd arno i gael mynediad at wasanaethau marw â chymorth oherwydd diffyg gofal lliniarol a gofal diwedd oes digonol. Ac eto, rydym yn ymwybodol o dystiolaeth ryngwladol bod cyflwyno darpariaeth marw â chymorth yn wirfoddol wedi effeithio'n andwyol ar y gwasanaethau gofal lliniarol a ddarperir ac, yn yr ardaloedd hyn, bu effaith negyddol ar y cyllid sydd ar gael ar gyfer gofal lliniarol.

68. Nodwn dystiolaeth yr Ysgrifennydd Cabinet fod buddsoddiad wedi'i wneud i ddarparu mynediad teg at ofal lliniarol a gofal diwedd oes, a bod gwaith yn mynd rhagddo i fynd i'r afael â nifer o'r heriau y mae hosbisau yn eu hwynebu, a

disgwyllir iddo gael ei gwblhau erbyn mis Ebrill 2026. Er gwaethaf hyn, rydym yn pryderu am y pwysau y mae'r sector yn ei wynebu.

Casgliad 3. Mae effaith tymor hwy bosibl y Bil ar ddarpariaeth gofal lliniarol a gofal diwedd oes yng Nghymru yn parhau i fod yn destun pryder inni. Os yw darpariaethau'r Bil hwn i gael eu gweithredu yng Nghymru, rhaid gwahaniaethu'n glir ac yn bendant rhwng marw â chymorth a gofal lliniarol/diwedd oes. Yn hollbwysig, ni ddylai gweithredu gwasanaethau marw â chymorth gan GIG Cymru effeithio'n negyddol ar y cyllid sydd ar gael ar gyfer gofal lliniarol a gofal diwedd oes.

Canllawiau ynghylch gweithredu'r Ddeddf

69. Mae cymal 40 newydd (cymal 37 gynt) o'r Bil yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru ddyroddi canllawiau sy'n ymwneud â gweithredu'r Ddeddf yng Nghymru, ynghylch materion sydd o fewn cymhwysedd datganoledig.

70. Cyn llunio canllawiau, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â Phrif Swyddog Meddygol Cymru, yr Ysgrifennydd Gwladol, personau ag anawsterau dysgu, personau eraill sydd â nodweddion gwarchodedig, personau yr ymddengys eu bod yn yn cynrychioli darparwyr gwasanaethau iechyd neu ofal gan gynnwys darparwyr gofal lliniarol neu ofal diwedd oes a phersonau eraill y mae Gweinidogion Cymru yn eu hystyried yn briodol.

Tystiolaeth gan randdeiliaid

71. Roedd rhanddeiliaid yn cefnogi'r darpariaethau hyn yn gyffredinol. Gwnaethant bwysleisio'r angen i ymgynghori ag unigolion a grwpiau perthnasol, gan ddefnyddio ystod o ddulliau ymgysylltu a allai fod angen eu teilwra'n benodol ar gyfer gwahanol grwpiau. Pwysleisiwd pwysigrwydd cael canllawiau ymarferol a hygyrch hefyd. Nododd BASW Cymru:

"Ensuring the guidance is practical and accessible enables vulnerable populations to make informed decisions, protects against coercion, and supports effective implementation by stakeholders, such as social workers."³³

72. Awgrymodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru y dylai'r cymal hwn gynnwys cyfeiriad penodol at y Prif Swyddog Meddygol yn ymgynghori â phobl hŷn.

³³ TIA02 BASW Cymru (Saesneg yn unig)

*"Mae angen i'r ymgynghori hwnnw fod yn ystyrlon, caniatáu digon o amser, a gwneud ymdrech wirioneddol i gyrraedd gwahanol grwpiau o bobl hŷn drwy ddulliau ymgysylltu amrywiol, yn hytrach na dibynnu'n bennaf ar ddulliau ar-lein. Weithiau, bydd pobl hŷn yn cymryd nad yw negeseuon ar gyfer y cyhoedd yn gyffredinol yn berthnasol iddynt hwy, felly mae angen i'r cyfathrebu fod yn benodol i bobl hŷn a chael ei deilwra iddynt."*³⁴

73. Yn ôl Hospice UK, mae rhaid i'r Prif Swyddog Meddygol ymgynghori â hosbisau elusennol a gwasanaethau gofal lliniarol. Dywedodd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru y dylai datblygu canllawiau fod yn gyfrifoldeb aml-asiantaeth clir, yn cynnwys cyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol, arweinwyr diogelu, a chynrychiolwyr o wasanaethau lliniarol ac eiriolaeth y trydydd sector:

*"The inclusion of social care expertise will ensure that guidance is appropriately holistic and grounded in real-world experience of working with people at end of life."*³⁵

74. Dywedodd Coleg Brenhinol y Seiciatryddion Cymru y dylai fod gan y Prif Swyddog Meddygol ddyletswydd i ymgynghori â'r Coleg Brenhinol, o ystyried y rolau fyddai gan seiciatryddion o dan y Bil wrth asesu gallu meddyliol ac eistedd ar baneli adolygu marw â chymorth. Awgrymodd hefyd y gellid cryfhau'r cymal hwn trwy ofyniad i osod y canllawiau gerbron y Senedd, i'w cymeradwyo ganddi, ac i gael eu hadolygu (yn unol â darpariaethau monitro/adolygu eraill y Bil).³⁶

Tystiolaeth gan yr Ysgrifennydd Cabinet

75. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod nifer o ddarpariaethau yn y Bil yn ymwneud â chanllawiau, a bod y darpariaethau mwyaf eang yn nwylo Gweinidogion Cymru. Roedd y darpariaethau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion ymgynghori ag ystod eang o bobl, gan gynnwys y Prif Swyddog Meddygol, a hefyd pobl sy'n cynrychioli pobl ag anabledau dysgu, nodweddion gwarchodedig, gofal lliniarol, darpariaeth hosbis, yn ogystal â darpariaeth eang a oedd yn cwmpasu unrhyw un arall sy'n briodol ym marn y Gweinidogion, a dywedodd:

³⁴ TIA01 Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

³⁵ TIA07 ADSS Cymru (Saesneg yn unig)

³⁶ TIA04 Coleg Brenhinol y Seiciatryddion Cymru (Saesneg yn unig)

*"My own view is that that is a good way of proceeding. It's a broad expectation; it's specific on the sorts of groups of people that are most likely to have a strong interest or an informed view."*³⁷

76. Gwnaethom ofyn i'r Ysgrifennydd Cabinet am ei farn ar y dystiolaeth a gawsom gan randdeiliaid a oedd yn awgrymu y byddai'n fuddiol pennu grwpiau pellach o bobl neu sefydliadau i ymgynghori â hwy ar wyneb y Bil. Dywedodd wrthym:

"If you look at the impact assessment, the equalities impact assessment that the UK Government has undertaken, I think, in almost all of the protected characteristics, they identify particular risks, or particular interests, if you like. So, they talk about the interests of women as caregivers, they talk about the interests of LGBT groups as having particular exposure to mental health. So, there are characteristics of each protected characteristic that seem to me to mean that you would have to have a broadly based approach.

*So, identifying one group of those and saying, 'Well, this group needs particular consultation', I don't feel is the right approach. So, I think that the balance is well struck in the clause as it's drafted now."*³⁸

77. Cadarnhaodd hefyd, wrth i'r gwasanaeth ddatblygu, y byddai'n rhagweld yr angen i adolygu'r canllawiau'n rheolaidd.

Ein barn ni

78. Rydym yn cefnogi'r egwyddor o'i gwneud yn ofynnol bod canllawiau'n cael eu llunio a'u cyhoeddi ynghylch gweithrediad y Ddeddf. Yn ogystal, rydym yn cefnogi'r gofyniad i Weinidogion Cymru ymgynghori'n eang wrth lunio'r canllawiau hyn. Rhaid i'r ymgynghoriad hwn fod yn ystyrlon. Rhaid iddo fabwysiadu ystod o ddulliau ymgysylltu, wedi'u teilwra'n benodol ar gyfer gwahanol grwpiau, a rhaid iddo fod yn ymarferol ac yn hygyrch i bawb, a pheidio â dibynnu'n llwyr ar ddulliau ar-lein.

³⁷Cofnod y Trafodion, 16 Gorffennaf 2025, paragraff 121

³⁸Cofnod y Trafodion, 16 Gorffennaf 2025, paragraff 122

79. Rydym yn cydnabod barn rhanddeiliaid a ddywedodd eu bod am i'r Bil wneud darpariaeth benodol ar gyfer ymgynghori â grwpiau pellach o bobl neu sefydliadau a enwir (gan gynnwys pobl hŷn, cyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol neu wasanaethau gofal lliniarol) cyn gwneud canllawiau. Credwn fod y Bil, a'r dogfennau sy'n cyd-fynd ag ef, yn creu disgwyliad eang y bydd llunio canllawiau yn cynnwys ymgynghori ag unrhyw berson neu sefydliad sy'n debygol o fod â barn gref neu wybodus ar ei ddarpariaethau. Felly, nid ydym yn credu ei bod yn angenrheidiol ychwanegu at y rhestr o bobl y dylid ymgynghori â hwy ynghylch y canllawiau sydd ar wyneb y Bil.

Monitro gan Comisiynydd Marw â Chymorth yn Wirfoddol

80. Mae Cymal 49 newydd (cymal 45 gynt) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd Marw â Chymorth yn Wirfoddol (a gaiff ei benodi gan y Prif Weinidog) fonitro gweithrediad y Ddeddf, ymchwilio i unrhyw fater sy'n gysylltiedig â gweithrediad y Ddeddf y mae awdurdod cenedlaethol priodol³⁹ yn ei gyfeirio at y Comisiynydd, ac adrodd i'r awdurdod ar hynny, a chyflwyno adroddiad blynyddol i bob awdurdod cenedlaethol priodol ynghylch gweithrediad y Ddeddf.

Tystiolaeth gan rhanddeiliaid

81. Roedd y rhanddeiliaid yn cytuno â'r darpariaethau hyn yn gyffredinol. Pwysleisiodd rhai ymatebwyr, gan gynnwys Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru a BASW Cymru, yr angen am annibyniaeth ar ran y Comisiynydd. Roedd hefyd ambell awgrym ar gyfer cryfhau'r trefniadau.

82. Dywedodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru na ddylai'r Comisiynydd fod yn gyfyngedig i gynhyrchu adroddiad blynyddol, ond y dylai allu cyhoeddi adroddiadau ychwanegol, e.e. adroddiadau thematig ac adroddiadau ar feysydd sy'n peri pryder. Dywedodd hefyd y dylai fod darpariaeth i eraill, fel chwythwyr chwiban ac unigolion pryderus, godi materion gyda'r Comisiynydd ac y dylai fod y Comisiynydd yn gallu cychwyn ei ymchwiliad ei hun.⁴⁰

83. Dywedodd BASW Cymru y dylai'r Comisiynydd ymgynghori â'r Prif Swyddog Meddygol wrth gynhyrchu'r adroddiad blynyddol, a dylai sicrhau bod adroddiadau'n ymdrin â'r materion cyfreithiol, meddygol a chymdeithasol a nodwyd gan y panel amlddisgyblaethol.⁴¹ Roedd am weld adroddiad blynyddol y

³⁹Ystyr 'awdurdod cenedlaethol priodol' yw naill ai yr Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru.

⁴⁰ TIA01 Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

⁴¹ Byddai paneli adolygu marw â chymorth amlddisgyblaethol yn penderfynu, ymhlith

Comisiynydd ac ymateb Llywodraeth Cymru i hyn yn cael eu cyhoeddi, ac iddynt gael eu cyflwyno i'r Senedd er mwyn cryfhau prosesau goruchwyllo a chraffu.⁴²

84. Roedd Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu Cymru yn cefnogi hyn ac o'r farn ei bod yn rhesymegol i Weinidogion Cymru gyfeirio unrhyw fater sy'n gysylltiedig â gweithredu'r Ddeddf at y Comisiynydd Marw â Chymorth yn Wirfoddol i ymchwilio iddo:

*"However, we also regard it as beneficial that UK Government Ministers could also make such referrals even if the relevant case occurs in Wales. We strongly support the requirement for Welsh Ministers to publish a response to the Annual Report of the Voluntary Assisted Dying Commissioner."*⁴³

Tystiolaeth gan yr Ysgrifennydd Cabinet

85. Gwnaethom ofyn i'r Ysgrifennydd Cabinet ynghylch y cynigion ar gyfer Comisiynydd Marw â Chymorth yn Wirfoddol ac a oedd yn credu y byddai hyn yn sicrhau digon o annibyniaeth, goruchwyliaeth a gwaith craffu ar y mater marw â chymorth yng Nghymru. Cadarnhaodd mai dyma oedd ei farn, gan ychwanegu:

"There is a requirement, as you will know, for the commissioner to submit an annual report to the Welsh Ministers, which should be laid in the Senedd. So, [...] that latter element has been strengthened in the progress of the Bill to where it is now, which is a good thing to see, and the mechanism has moved from the chief medical officer to the commissioner, which I think is also probably the right place for it to be.

*So, I think where it is now has improved in the passage of the journey of the Bill, and I think it's pretty robust."*⁴⁴

Ein barn ni

86. Rydym yn cefnogi'r egwyddor yn y Bil o sefydlu swyddog â chyfrifoldeb dros fonitro gweithrediad y Ddeddf, ymchwilio i faterion a gyfeiriwyd gan awdurdod cenedlaethol, adrodd arnynt a chynhyrchu adroddiad blynyddol ar weithrediad y Ddeddf. Rydym yn cytuno â rhanddeiliaid y dylai unrhyw swyddog o'r fath

pethau eraill, fod person yn derfynol sâl ac yn gallu gwneud y penderfyniad i ddod â'u bywyd eu hunain i ben

⁴² TIA02 BASW Cymru (Saesneg yn unig)

⁴³ Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu Cymru (Saesneg yn unig)

⁴⁴ Cofnod y Trafodion, 16 Gorffennaf 2025, paragraff 149

weithredu'n annibynnol ar y llywodraeth, er mwyn sicrhau didueddrwydd, meithrin ymddiriedaeth y cyhoedd, a diogelu unigolion sy'n agored i niwed.

87. Rydym yn croesawu'r newidiadau i'r Bil a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod adroddiad blynyddol y Comisiynydd gerbron y Senedd, ynghyd â'u hymateb iddo. Credwn y bydd hyn yn cryfhau goruchwyliaeth ac yn cynyddu tryloywder.

88. Rydym yn awyddus i sicrhau bod y Bil yn galluogi'r Comisiynydd i gynnal ymchwiliadau i faterion heblaw'r rhai sydd wedi'u cyfeirio gan awdurdod cenedlaethol ac i gynhyrchu adroddiadau ychwanegol, gan gynnwys adroddiadau ar feysydd sy'n peri pryder ac ymchwiliadau ar ei liwt ei hun. Byddem yn croesawu barn yr Ysgrifennydd Cabinet ar y pwynt hwn, gan gynnwys ei farn ynghylch a yw'r Bil yn darparu pwerau o'r fath i'r Comisiynydd.

Argymhelliad 3. Yn ei ymateb i'r adroddiad hwn, dylai'r Ysgrifennydd Cabinet nodi ei farn ynghylch a ddylai'r Comisiynydd Marw â Chymorth yn Wirfoddol fod yn gallu cynnal ymchwiliadau i faterion heblaw'r rhai sydd wedi'u cyfeirio gan awdurdod cenedlaethol ac i gynhyrchu adroddiadau ychwanegol, gan gynnwys adroddiadau ar feysydd sy'n peri pryder ac ymchwiliadau ar ei liwt ei hun. Dylai hefyd nodi a yw'r Bil fel y'i drafftwyd ar hyn o bryd, yn galluogi hyn ym marn Llywodraeth Cymru.

89. Ar wahân i hynny, mae rôl Comisiynydd Marw â Chymorth yn Wirfoddol yn rôl ar y cyd ar gyfer Cymru a Lloegr. Mae gennym rai pryderon y gallai'r trefniant hwn olygu bod deiliad y swydd yn llai cyfarwydd â gweithrediad ac effaith y Ddeddf yng Nghymru, ac y gallai arwain at annhegwch. Nodwn dystiolaeth yr Ysgrifennydd Cabinet ei fod yn fodlon yn gyffredinol â'r darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud â rôl goruchwyllo'r Comisiynydd dros Gymru, ond credwn y dylai nodi pa ystyriaeth y mae wedi'i rhoi i greu Comisiynydd dros Gymru.

Argymhelliad 4. Yn ei ymateb i'r adroddiad hwn, dylai'r Ysgrifennydd Cabinet nodi pa ystyriaeth a roddwyd gan Lywodraeth Cymru i greu Comisiynydd Marw â Chymorth yn Wirfoddol dros Gymru, ac os diystyriwyd hyn, beth oedd y rhesymau dros hynny.

Darpariaeth ynghylch y Gymraeg

90. Mae cymal 51 newydd (cymal 47 gynt) yn gwneud darpariaeth ar gyfer y Gymraeg mewn perthynas â phersonau sy'n ceisio cymorth o dan y Ddeddf yng Nghymru. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â Gwasanaethau Marw â Chymorth yn Wirfoddol (o dan

gymal 43) gynnwys darpariaeth y mae Gweinidogion Cymru yn ei hystyried yn briodol at ddiben sicrhau, pan fydd person yn nodi ei fod yn dymuno cyfathrebu yn Gymraeg, fod pob cam rhesymol yn cael ei gymryd i sicrhau bod unrhyw ohebiaeth a anfonir yn Gymraeg a bod unrhyw adroddiadau ynghylch yr asesiad cyntaf neu'r ail asesiad gan ymarferydd meddygol cofrestredig yn Gymraeg. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod gohebiaeth gan y Comisiynydd a'r Panel Adolygu Marw â Chymorth yn Gymraeg, bod aelodau'r panel yn siarad Cymraeg a bod tystysgrif cymhwysra a gyhoeddir gan y panel yn Gymraeg. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i reoliadau sy'n pennu ffurf datganiad cyntaf neu ail ddatganiad (a wneir gan berson sy'n ceisio cymorth) ac adroddiadau a wneir mewn perthynas â'r asesiad cyntaf, yr ail neu ddatganiad terfynol (a wneir gan ymarferydd meddygol cofrestredig) ddarparu i'r ffurflenni i fod yn Gymraeg yn ogystal ag yn Saesneg.

Tystiolaeth gan rhanddeiliaid

91. Roedd rhanddeiliaid yn gytûn y dylai'r Senedd gael awdurdod sylfaenol dros faterion yn ymwneud â'r Gymraeg, ac y dylai unrhyw reoliadau sy'n cynnwys darpariaeth ynghylch y Gymraeg gael eu cymeradwyo gan y Senedd.⁴⁵

92. Holodd rhai rhanddeiliaid a oes digon o staff Cymraeg eu hiaith sy'n gymwys ac yn barod i ymgymryd â rolau wrth ddarparu gwasanaethau marw â chymorth. Dywedodd Coleg Brenhinol y Seiciatryddion Cymru wrthym:

*"There are not enough psychiatrists to do what the Bill requires ... This is particularly pertinent when it comes to the significant shortage of Welsh-speaking psychiatrists and the need to ensure that the right of individuals in Wales to discuss the decision to end their life through the medium of Welsh can be upheld."*⁴⁶

93. Dywedodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru y bydd "yn hanfodol" sicrhau bod digon o sgiliau iaith a chyfieithu ar y pryd yn cael eu datblygu cyn gweithredu'r Bil hwn ac y bydd "angen sicrwydd y gellir cyflawni hyn."⁴⁷

⁴⁵ Cafodd y ddarpariaeth hon ei dileu o'r Bil drwy welliant. Mae'r fersiwn o'r Bil a ddygwyd o Dŷ'r Cyffredin i Dŷ'r Arglwyddi yn darparu bod rheoliadau marw â chymorth yn wirfoddol a wneir gan Weinidogion Cymru, a fydd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer y Gymraeg, yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd.

⁴⁶ TIA04 Coleg Brenhinol y Seiciatryddion Cymru (Saesneg yn unig)

⁴⁷ TIA01 Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

94. Dywedodd hefyd, er y byddai llawer o'r broses o geisio cymorth o dan y Ddeddf yn digwydd drwy sgwrs a thrafodaeth â gweithwyr proffesiynol perthnasol,

*"rhaid i unrhyw wybodaeth a fydd ar gael i unigolion mewn perthynas â'r Ddeddf fod ar gael drwy ddulliau annigidol."
Rhaid nad oes unrhyw amgylchiad lle na ellir ond cael gafael ar wybodaeth ar-lein."*⁴⁸

95. Dywedodd Hospice UK fod angen i ddarpariaeth Gymraeg fod o ansawdd uchel, nid yn unig o ran lefel iaith ond hefyd o ran dealltwriaeth glinigol a chyfreithiol. Rhybuddiodd hefyd fod angen sicrhau darpariaeth Gymraeg ym mhob cam o'r broses marw â chymorth:

*"It should not be limited to where it is requested as this fails to adequately safeguard against coercion."*⁴⁹

96. Cododd y Comisiynydd Pobl Hŷn bryder ynghylch pobl gallu nad yw'r Gymraeg na'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt, a'r graddau y byddant yn cael mynediad at wybodaeth a chymorth priodol, a gwneud dewis gwybodus:

*"Mae'n hanfodol bod unrhyw un sy'n ceisio dilyn y llwybr hwn yn deall yn llwyr ei opsiynau a goblygiadau ei benderfyniadau cyn cydsynio iddo. O beidio â darparu ar gyfer hyn, byddai'n gosod rhwystrau a fyddai'n atal rhai rhannau o'r boblogaeth rhag cael mynediad at y gwasanaeth, ac felly byddai'n creu anghydraddoldebau."*⁵⁰

97. Anogodd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru y dylai canllawiau a fframweithiau gwasanaeth yn y dyfodol fynd i'r afael ag anghenion ehangach o ran cyfathrebu, gan gynnwys deunyddiau hawdd eu darllen, iaith Arwyddion Prydain, a deunyddiau diwylliannol sensitif ar gyfer pobl o gefndiroedd ethnig lleiafrifol.⁵¹

⁴⁸ TIA01 Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

⁴⁹ TIA06 Hospice UK (Saesneg yn unig)

⁵⁰ TIA01 Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

⁵¹ TIA07 ADSS Cymru (Saesneg yn unig)

Tystiolaeth gan yr Ysgrifennydd Cabinet

98. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod y Bil wedi'i gryfhau i ddarparu bod camau rhesymol yn cael eu cymryd i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg pan fo angen hynny ar berson:

*"So, that is on the face of the Bill, and that is appropriate, I think."*⁵²

99. Aeth ymlaen i ddweud y byddai sicrhau bod staff ar gael a allai ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg a staff nad oeddent wedi defnyddio'r opsiwn optio allan yn heriol ond nid yn amhosibl.⁵³

100. Dywedodd nad oedd unrhyw waith modelu wedi'i wneud hyd yn hyn i sicrhau bod digon o staff ar gael a allai weithio drwy gyfrwng y Gymraeg, ond y byddai angen gwneud hyn pe bai'r Bil yn mynd rhagddo:

*"Byddwn i'n dweud, yn y maes hwn mae'n benodol bwysig bod pobl yn teimlo eu bod nhw'n gallu cael mynediad at gyngor a chyfathrebu â phobl yn yr iaith maen nhw eisiau, am resymau amlwg. Mae'r holl beth yn delio â phobl mewn sefyllfa fregus yn gwneud y penderfyniad mwyaf sylweddol. Felly, mae'r galw i allu darparu yn y Gymraeg—nid y galw o ran demand, ond yr angen i ddarparu yn y Gymraeg—yn rhywbeth gwbl greiddiol."*⁵⁴

101. Pan ofynnwyd iddo am y ddarpariaeth ar gyfer pobl nad y Gymraeg na'r Saesneg yw eu hiaith gyntaf, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

*"Mae'r Bil ei hunan yn gwneud gofyniad bod meddygon sydd yn gwneud yr asesiadau yn gwneud yr adjustments sydd eu hangen ar gyfer unrhyw un sydd yn mynnu mynediad at y gwasanaeth o ran iaith, llythrennedd a hefyd defnyddio pobl sy'n gallu cyfieithu ar y pryd ac ati. Mae'r gofynion hynny yn y Ddeddf yn barod, ond fel wastad, mae gweithredu hynny ar lawr gwlad yn gallu peri heriau."*⁵⁵

⁵²Cofnod y Trafodion, 16 Gorffennaf 2025, paragraff 156

⁵³Cofnod y Trafodion, 16 Gorffennaf 2025, paragraff 156

⁵⁴Cofnod y Trafodion, 16 Gorffennaf 2025, paragraff 158

⁵⁵Cofnod y Trafodion, 16 Gorffennaf 2025, paragraff 164

Ein barn ni

102. Mae gallu cyfathrebu yn eich dewis iaith yn gwbl hanfodol yn ystod cyfnod mor fregus ym mywyd person. Felly, rydym yn croesawu cryfhau'r Bil i ddarparu, pan fo angen hynny ar berson, fod rhaid cymryd camau rhesymol i ddarparu gwasanaethau marw â chymorth yn Gymraeg. Nodwn hefyd dystiolaeth yr Ysgrifennydd Cabinet fod y Bil yn cynnwys gofyniad am addasiadau hanfodol ar gyfer pobl nad y Gymraeg na'r Saesneg yw eu hiaith gyntaf.

103. Fodd bynnag, roedd y dystiolaeth gan randdeiliaid a'r Ysgrifennydd Cabinet y byddai'n her cael digon o staff sy'n siarad Cymraeg i fodloni'r gofyniad hwn yn destun pryder. Er mai mater i unrhyw Lywodraeth Cymru yn y dyfodol fydd gweithredu'r Ddeddf, o ystyried yr amser sydd ei angen i hyfforddi gweithwyr gofal iechyd proffesiynol newydd, credwn ei bod yn bwysig i Lywodraeth bresennol Cymru ddechrau gweithio i fodelu'r niferoedd tebygol o staff gofal iechyd fydd eu hangen yn y dyfodol i ddarparu gwasanaethau marw â chymorth trwy gyfrwng y Gymraeg.

Argymhelliad 5. Yn ei ymateb i'r adroddiad hwn, dylai'r Ysgrifennydd Cabinet nodi sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynyddu nifer y staff sy'n siarad Cymraeg ac sy'n gallu darparu gwasanaethau marw â chymorth yn wirfoddol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Argymhelliad 6. Yn ei ymateb i'r adroddiad hwn, dylai'r Ysgrifennydd Cabinet nodi sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu sicrhau darpariaeth ddigonol o wasanaethau marw â chymorth yn wirfoddol i bobl nad y Gymraeg na'r Saesneg yw eu hiaith gyntaf.